**ARHOLIADAU SEMESTER UN, 2025/26**

**ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG**

## CT10320 Rheoli Ac Atal Troseddu

Amser: **1 AWR A 30 MUNUD**

**Atebwch 2 gwestiwn**

Caniateir i ymgeiswyr fynd ag UN dudalen A4 o nodiadau wedi'u hysgrifennu â llaw neu eu teipio (ar y ddwy ochr) i mewn i'r arholiad.

Nodwch yn glir pa gwestiynau rydych yn eu hateb.

MAE MYFYRWYR YN CAEL CYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN GYMRAEG NEU YN SAESNEG

Ar ôl eistedd, DIM OND tudalen flaen y llyfr/llyfrau atebion a'r papur presenoldeb y mae myfyrwyr yn cael eu llenwi.

**PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR ARHOLIAD DROSODD TAN Y DYWEDIR WRTHYCH AM WNEUD HYNNY.**

1. Beth yw rheolaeth gymdeithasol anffurfiol a sut y gellir ei harneisio i reoli troseddu? Rhowch enghreifftiau i ategu'ch ateb.

2. Beth yw rheolaeth gymdeithasol ragweithiol a pha mor effeithiol yw'r dull hwn fel ffordd o reoli troseddu? Defnyddiwch enghreifftiau i ategu'ch ateb.

3. A yw dedfrydu troseddwyr i'r ddalfa yn ffordd effeithiol o reoli troseddu? Cyfeiriwch at ddamcaniaethau a thystiolaeth empirig i ategu'ch ateb.

4. A oes ymyriadau a all fod yn effeithiol wrth leihau cyfraddau aildroseddu unigolion sydd wedi cael eu dal yn cyflawni troseddau? Cyfeiriwch at ddamcaniaethau ac enghreifftiau i ategu'ch ateb.

5. Yng nghyd-destun atal troseddau sefyllfaol (SCP), esboniwch y prif ddulliau a ddefnyddir i leihau'r cyfleoedd i droseddu, a rhowch asesiad beirniadol o gyfyngiadau'r ymagwedd hon. Cyfeiriwch at ddamcaniaethau a chymwysiadau ymarferol i ategu'ch ateb.

6. Aseswch yn feirniadol y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddilysrwydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Yn eich ateb, dylech ystyried cyfiawnder gweithdrefnol, diwylliant sefydliadol, canfyddiadau'r cyhoedd o degwch, ac effaith digwyddiadau uchel eu proffil. Sut mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd i gryfhau neu danseilio hyder y cyhoedd mewn plismona?

**DIWEDD Y PAPUR**